# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-09-07)

**Dyddiad: 6 Tachwedd 2007**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na chafodd y Cynulliad ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.
### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

**SLC55 - Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1) (Cymru) 2007**
Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed yn 2007. Yn dod i rym ar 30 Tachwedd 2007.- diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 mewn perthynas â'r telerau sydd wedi'u gosod ymhlyg mewn cytundebau ar gyfer gosod cartrefi symudol ar safle gwarchodedig yng Nghymru pa un a wnaed y cytundebau cyn neu ar ôl y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym (30 Tachwedd 2007).

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC57 - Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) (Diwygio) 2007**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 22 Hydref 2007. Fe'u gosodwyd ar 23 Hydref 2007. Yn dod i rym ar 14 Tachwedd 2007.Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro cyfeiliornad yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 i'w gwneud yn dramgwydd i fethu â rhoi hysbysiad o ddaliad o dan reoliad 3.

**SLC58 - Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 22 Hydref 2007. Fe'i gosodwyd ar 23 Hydref 2007. Yn dod i rym ar 22 Hydref 2007.Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer digolllediad sydd i'w dalu o ran anifail a effeithir gan y tafod glas, yr amheuir ei fod yn cael ei effeithio gan y tafod glas neu a fu'n agored i gael ei heintio gan y tafod glas ac a gigyddwyd o dan adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981

**SLC60 - Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Hydref 2007. Fe'u gosodwyd ar 29 Hydref 2007. Yn dod i rym ar 19 Tachwedd 2007.Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach o ran llunio a gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

### Eitem 3: Offerynnau y cafodd y Cynulliad ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2
### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC56 - The Import and Export Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (No.5) (Wales) Regulations 2007** ("Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig")Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 18 Hydref 2007. Fe'u gosodwyd ar 18 Hydref 2007. Yn dod i rym am 2:00pm ar 18 Hydref 2007.
- gweithredu yng Nghymru Benderfyniad 2007/663/EC y Comisiwn Ewropeaidd sy'n diwygio ymhellach Benderfyniad 2007/554/EC y Comisiwn ynghylch mesurau amddiffyn penodol rhag clwy'r traed a'r genau yn y Deyrnas Unedig ac sy'n dirymu ac yn ail-wneud gyda diwygiadau The Import and Export (foot-and-Mouth Disease) (No 4) (Wales) Regulations 2007. Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 18 Hydref 2007 a daethant i rym ar yr un diwrnod. Byddant yn peidio â bod mewn grym ar 15 Tachwedd 2007. Maent yn caniatáu allforio semen ac embryonau wedi'u rhewi o ddefaid a geifr i aelod-wladwriaethau eraill yn dibynnu ar amodau penodol ac yn ei wneud yn drosedd allforio unrhyw beth a waherddir gan y Rheoliadau a hefyd yn ei wneud yn drosedd i unigolion fynd ag unrhyw gynnyrch y mae'r Rheoliadau'n gymwys iddynt y tu allan i Gymru mewn bagiau personol.

### Eitem 4: Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 Trafod yr Adroddiad Drafft.
### Eitem 5: Unrhyw fater arall.
### Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf.